YR EGLWYS yng NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

PLWYF DEWI SANT, CAERDYDD
THE PARISH OF DEWI SANT, CARDIFF

20 Hydref 2020

Annwyl Gyfeillion,

Brynhawn Llun cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru fod Cymru yn mynd i mewn i ail gyfnod o Gloi Mawr ddydd Gwener 23 am 6.00pm. Bydd yn para ychydig dros bythefnos. Mae Mainc yr Esgobion wedi cadarnhau bod y Cloi Mawr hwn yn mynd i effeithio ar eglwysi. Felly, ni fydd modd inni gynnal gwasanaeth yn yr eglwys am y tri Sul nesaf: 25 Hydref, 1 Tachwedd (Gŵyl yr Holl Sant), a'r 8 Tachwedd (Sul y Cofio).

Wrth reswm bydd ein podlediadau ar y Sul yn parhau fel arfer.

Cofiwch os oes angen unrhyw beth arnoch chi yn ystod y cyfnod clo hwn, mae croeso i chi gysylltu â mi: 029 2056 6001.

Gan eich cadw chi yn fy ngweddïau,

Gyda phob bendith,

Dyfrig.

Hafod Lon, 6 Rachel Close, Danescourt, Llandaf/Llandaff, Caerdydd/Cardiff, CF5 2SH

☎ 029 2056 6001 **E-mail:** dyfriglloyd@hotmail.com